# LLWYBR ADDYSG AC YMCHWIL (YMCHWIL) - PROFFILIAU

**Cynnwys**


| | |
|---|---|
| Gwybodaeth am y Proffiliau | Tudalen 1 |
| Proffil Darlithydd | Tudalennau 2-5 |
| Proffil Uwch Ddarlithydd | Tudalennau 6-9 |
| Proffil Athro Cyswllt | Tudalennau 10-14 |
| Proffil Athro | Tudalennau 15-19 |
| Troednodiadau | Tudalennau 19 |


**Gwybodaeth am y Proffiliau**

- Mae proffiliau ar gyfer Darlithydd, Uwch Ddarlithydd, Athro Cyswllt ac Athro

- Mae pob proffil wedi'i rannu'n bedwar maes gweithgarwch:
  - Addysg
  - Ymchwil
  - Arloesi, Ymgysylltu a Menter
  - Colegoldeb, Arweinyddiaeth, Rheoli a Gwasanaeth

- Mae gan bob maes gweithgarwch ddisgrifiad o'r lefel perfformiad disgwyliedig

- Mae pob maes gweithgarwch yn cael ei rannu ymhellach yn sawl parth

- Mae pob parth yn cynnwys rhestrau, nad ydynt yn rhai caeth, o enghreifftiau o'r mathau o weithgarwch a ddisgwylir ar bob lefel

- Mae cyrhaeddiad yn gynyddrannol o swydd Darlithydd i Athro

- Asesir cyflawniad yn erbyn meini prawf sy'n ddangosol ac yn hyblyg yn hytrach nag yn rhagnodol

- Dylid cymhwyso'r meini prawf mewn ffordd gyfannol er mwyn asesu trywydd gyrfa cyffredinol

# Darlithydd – Addysg ac Ymchwil (Ymchwil)

| Disgrifydd | Parthau | Enghreifftiau |
|---|---|---|
| **ADDYSG**<br>Gallu cynllunio, cyflwyno, gwerthuso ac asesu prosesau addysgu, ymgysylltu'n effeithiol â myfyrwyr a chydweithio â chydweithwyr er mwyn helpu i wella ei arferion addysgu personol ac arferion addysgu eraill. | **Gwybodaeth a Gwerthoedd Proffesiynol**<br>Ymgysylltu â datblygiad proffesiynol parhaus a'i gymhwyso er mwyn gwella ymarfer addysgol a'ch trywydd fel addysgwr | • Tystiolaeth o ymgysylltiad personol ag ysgolheictod dysgu ac addysgu, ac ymrwymiad i Ddysgu Proffesiynol Parhaus, er enghraifft trwy addysgu'r Dystysgrif Ôl-raddedig Addysg Uwch, cymrodoriaeth Advance HE neu gymhwyster cyfatebol (e.e. Cymdeithas yr Addysgwyr Meddygol)<br>• Cymryd rhan mewn gweithgareddau DPP, fel mynychu gweithdai neu gynadleddau sydd wedi gwella ymarfer addysgu<br>• Gwella ymarfer drwy weithredu ar adborth, er enghraifft o'r broses arsylwi gan gymheiriaid |
| | **Datblygu'r cwricwlwm, yr amgylchedd dysgu**<br>Gweithgareddau sy'n arwain at welliannau amlwg i'r cwricwlwm, gwelliannau i'r amgylchedd dysgu neu greu gweithgareddau sy'n datblygu unigolion a grwpiau amrywiol o ddysgwyr | • Addysgu mewn ffordd sy'n hyrwyddo gwybodaeth myfyrwyr ac yn datblygu sgiliau<br>• Defnyddio technolegau addysgu digidol a/neu dechnolegau addysgu eraill ar gyfer dysgu ar lefel modiwl<br>• Creu amgylchedd dysgu cynhwysol ar lefel modiwl<br>• Gweithio mewn partneriaeth â myfyrwyr gan gynnwys ymateb i adborth gan fyfyrwyr gyda thystiolaeth o effaith ar fodiwlau a rhaglenni |
| | **Cymorth i ddysgwyr, cymunedau dysgwyr a'r effaith ar ddysgwyr**<br>Enghreifftiau o welliannau i gymorth i ddysgwyr, a datblygu cymunedau dysgwyr sy'n gwella ymdeimlad myfyrwyr o berthyn, gan gynnwys tystiolaeth o effaith | • Darparu tiwtora personol i gefnogi dysgu myfyrwyr ac ymdeimlad o berthyn<br>• Adborth cadarnhaol gan fyfyrwyr, adolygiadau gan gymheiriaid/ gwerthusiad cadarn o ddeilliannau addysgu ac asesu, deilliannau arsylwi gan gymheiriaid<br>• Darparu adborth sydd â'r nod o wella dysgu myfyrwyr<br>• Cyfrannu at weithgareddau sy'n datblygu cymuned gynhwysol ac ymdeimlad o berthyn<br>• Cyfrannu at weithgareddau sy'n gwella perfformiad myfyrwyr mewn perthynas â chadw myfyrwyr, cynnydd, cynhwysiant neu Briodweddau Graddedigion ar lefel modiwl |
| | **Dylanwad ar gymunedau academaidd/dysgwyr ehangach**<br>Tystiolaeth o ddylanwad cadarnhaol ar gydweithwyr a'r gymuned academaidd ehangach er mwyn gwella profiad addysgol myfyrwyr | • Gweithio gydag eraill o dîm y rhaglen i wella prosesau llywodraethu addysgu a chyflwyno'r rhaglen<br>• Tystiolaeth o gefnogi cydweithwyr e.e. trwy'r broses arsylwi ar gymheiriaid<br>• Tystiolaeth o gydweithio ym maes addysg, er enghraifft er mwyn adolygu dulliau addysgu neu gwricwla modiwlau/rhaglenni<br>• Cymryd rhan mewn prosiectau neu yn rhaglenni addysg y ddisgyblaeth neu'r adran gyda thystiolaeth o effaith |

| Disgrifydd | Parthau | Enghreifftiau |
|---|---|---|
| **YMCHWIL**<br>Gallu amlwg a thystiolaeth o ddatblygu'r maes yn genedlaethol drwy syniadau a gwybodaeth | **Cyfrannu at gynhyrchu gwybodaeth**<br>Cyfraniadau amlwg at gynhyrchu gwybodaeth a syniadau, sut maen nhw wedi cael eu cyfleu ac unrhyw gyllid neu ddyfarniadau sy'n cydnabod y gweithgarwch hwn | • Portffolio newydd o ansawdd uchel wedi'i olygu gan gymheiriaid o allbynnau[i] gwreiddiol sydd wedi'u cyhoeddi ac sy'n berthnasol i'r ddisgyblaeth<br>• Mabwysiadu ymarferion ymchwil agored er mwyn helpu i atgynhyrchu ymchwil yn unol â normau'r ddisgyblaeth<br>• Cyfrannu at y gwaith o ddatblygu ceisiadau am gyllid ymchwil neu gaffael adnoddau eraill sydd eu hangen i wneud gwaith ymchwil a oedd naill ai'n llwyddiannus neu wedi cael sgôr uchel gan bwyllgor allanol; gyda sylwadau ar gyfraniad penodol at grantiau sawl ymgeisydd yn ystod y broses ymgeisio neu gyflwyno<br>• Sicrhau mynediad at lyfrgell neu gasgliad arbennig, cael grantiau teithio |
| | **Cyfrannu at ddatblygiad unigolion**<br>Dangos sut mae arbenigedd wedi cael ei ddarparu ar gyfer timau, ymchwilwyr unigol a'r gymuned academaidd ehangach er mwyn cefnogi eu datblygiad | • Cyfrannu at oruchwylio myfyrwyr ymchwil amrywiol a/neu staff ymchwil eraill mewn ffordd effeithiol ac empathig; rhoi sylwadau ar gyfraddau cwblhau myfyrwyr ymchwil<br>• Hybu a gwerthfawrogi cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn ffordd weithredol, gweithredu fel esiampl dda a meithrin diwylliant ymchwil cynhwysol<br>• Cymryd rhan mewn diwylliant ymchwil cynhwysol gyda staff a myfyrwyr<br>• Adolygu drafftiau ymchwil ar gyfer myfyrwyr a chydweithwyr |
| | **Cyfraniad at y gymuned ymchwil ac arloesi ehangach**<br>Datblygu'r gymuned ehangach drwy rwydweithiau ymchwil cydweithredol a phennu cyfrifoldeb | • Rhwydweithiau o gysylltiadau ymchwil yn y maes a/neu gymunedau amlddisgyblaethol perthnasol, gan gynnwys cyfranogiad/cyflwyniad mewn cynadleddau a/neu gyfarfodydd rhwydwaith;<br>• Gweithredu fel adolygydd achlysurol ar gyfer allbynnau sy'n canolbwyntio ar ymchwil, fel erthyglau cyfnodolion wedi'u hadolygu gan gymheiriaid neu geisiadau am gyllid.<br>• Sefydlu a chymryd rhan mewn grwpiau arbenigol a gweithgorau allanol<br>• Cychwyn neu gymryd rhan mewn prosiectau ymchwil cydweithredol<br>• Cymryd rhan mewn prosiectau cydweithredol rhyngwladol |
| | **Cyfrannu at gymdeithas ehangach**<br>Cyfnewid gwybodaeth gyda rhanddeiliaid perthnasol sy'n cael effaith amlwg | • Cysylltiadau rhwydweithio gyda defnyddwyr ymchwil fel diwydiant, y llywodraeth, a chyrff proffesiynol, gan sicrhau eu bod yn cael effaith gadarnhaol a mesuradwy<br>• Gallu amlwg i ddefnyddio ymchwil i fynd i'r afael â pholisi (gan gynnwys polisi'r Brifysgol) a/neu ymarfer;<br>• Cynorthwyo gyda phrosesau Ymgysylltu â'r Cyhoedd ar gyfer gwaith ymchwil |

| Disgrifydd | Parth | Enghreifftiau |
|---|---|---|
| **ARLOESI, YMGYSYLLTU A MENTER**<br>Cyfraniadau ym meysydd arloesi, ymgysylltu neu fenter | **Deilliannau ac Effaith**<br>Sicrhau deilliannau ac effaith amlwg sy'n ychwanegu gwerth trwy syniadaeth a/neu drosglwyddo syniadau, dulliau, cynhyrchion, gwasanaethau neu atebion, er enghraifft i fusnesau, y llywodraeth, iechyd a llesiant, yr amgylchedd, cymdeithas, a bywyd diwylliannol, yn fewnol ac yn allanol gan sicrhau effaith. | • Cyfrannu at fesurau sy'n seiliedig ar ddata a gydnabyddir yn allanol (e.e. HEBCI, Sgôr QS, NSS) a gwaith dilynol (e.e. newid polisi, newid i iechyd cymdeithas).<br>• Darparu gweithgareddau arloesol, cydweithredol, mentrus sydd o fudd i'r Brifysgol (e.e. ariannol neu enw da) gan weithio gydag unigolion, cymunedau neu rwydweithiau. |
| | **Prosiectau a Gweithgareddau**<br>Dylunio, cynllunio, rheoli a chyflwyno gweithgareddau prosiect arloesol, gan gynnwys sicrhau adnoddau mewnol ac allanol gofynnol gan noddwyr fel sylfaen i brosiectau a'r gweithgareddau. | • Cyfrannu at brosiect o'i ddechrau'n deg i'r gwaith cyflawni a'i gwblhau'n llwyddiannus.<br>• Denu cyllid neu adnoddau gan bartneriaid mewnol ac allanol i gynnal prosiect. |
| | **Cyfathrebu a Phartneriaethau**<br>Cyflawni a chymryd rhan mewn prosesau cyfathrebu mewnol ac allanol effeithiol gyda chyrhaeddiad. Adnabod a datblygu partneriaethau ystyrlon gyda rhanddeiliaid allanol sy'n arwain at effaith. | • Cyfrannu at bartneriaethau arloesol sy'n ychwanegu gwerth at y Brifysgol<br>• Datblygu ymgysylltiad drwy gyhoeddiadau, cynadleddau, neu'r cyfryngau<br>• Ymgysylltu â chyflogwyr sy'n berthnasol i'r ddisgyblaeth e.e. am flwyddyn mewn diwydiant, lleoliadau haf sy'n arwain at allbynnau. |

| Disgrifydd | Parth | Enghreifftiau |
|---|---|---|
| **COLEGOLDEB, ARWEINYDDIAETH, RHEOLI a GWASANAETH**<br>Gallu cyfrannu mewn ffordd foddhaol at amrywiaeth o swyddi gweinyddol yn ymwneud â gweithgarwch academaidd | **Colegoldeb/Gwasanaeth**<br>Darparu enghreifftiau myfyriol o sut rydych chi wedi dangos dinasyddiaeth barhaus ac **wedi cymryd rhan** yn gyson yn ystod cyfnod eich penodiad. Rhowch dystiolaeth o effaith sy'n briodol i'r lefel. | • Cyfrannwr gweithgar at weithgareddau, pwyllgorau neu weithgorau Adran / Ysgol neu thema drawsbynciol (e.e. Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, deallusrwydd artiffisial, cyflogadwyedd, rhyngwladoli, profiad myfyrwyr, y Gymraeg).<br>• Cyfrannu at fentrau datblygu'r Adran / Ysgol a allai ymwneud ag ymchwil, addysgu neu gymorth i fyfyrwyr.<br>• Cymryd rhan weithredol mewn gweithgareddau recriwtio myfyrwyr cartref a rhyngwladol ar gyfer y maes pwnc.<br>• Adolygu fel cymheiriad allbynnau ymchwil / ceisiadau grant / arholwr mewnol myfyrwyr Doethurol<br>• Cyfrannu at drefnu cynhadledd neu gyfres o seminarau (e.e. disgyblaeth / Ysgol). |
| | **Datblygu, Mentora a Rheoli Eraill** Rheoli a datblygu eraill, gan gynnwys o bosibl gwaith mentora, rheoli llinell, neu reoli grwpiau ac unedau | • Mentora ffurfiol neu anffurfiol ar gyfer grŵp amrywiol o gydweithwyr / cynorthwywyr addysgu, gan roi sylw i egwyddorion Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.<br>• Hyfforddiant a phrofiad perthnasol a fydd yn arwain at allu i reoli nifer o gydweithwyr, gan gydnabod anghenion penodol unigolion o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol<br>• Uwchsgilio cydweithwyr |
| | **Arwain yn y Brifysgol**<br>Cyfranogiad ac arweinyddiaeth fewnol yn y Brifysgol yn ymwneud â phortffolio penodol neu gyfrifoldeb am feysydd gweithgarwch cyfan | • Dylanwadu ar y broses o lunio maes pwnc neu benderfyniadau a gweithgareddau adran.<br>• Dylanwadu ar fenter datblygu maes pwnc a allai ymwneud ag ymchwil, addysgu neu gymorth i fyfyrwyr.<br>• Cymryd rhan weithredol mewn grŵp/canolfan/sefydliad ymchwil yn ymwneud â maes pwnc<br>• Derbyn cyfrifoldeb a chyflawni rôl weinyddol ar lefel pwnc (e.e. Cydlynydd Arholiadau, Cydlynydd Modiwlau, Swyddog Deallusrwydd Artiffisial, Swyddog Derbyniadau, Swyddog y Gymraeg)<br>• Rhannu arferion gorau ym maes addysgu neu ymchwil mewn cyfarfod / pwyllgor / cynhadledd berthnasol (darparu DPP i eraill)<br>• Cymryd rhan mewn gweithgareddau undebau llafur (gan sicrhau eich bod yn dangos yr effaith ar weithio mewn partneriaeth a sut rydych chi'n cynorthwyo cydweithwyr a mentrau i wella'r ffordd y caiff y brifysgol ei rhedeg) |

# Uwch Ddarlithydd – Addysg ac Ymchwil (Ymchwil)

| Disgrifydd | Parthau | Enghreifftiau |
|---|---|---|
| **ADDYSG**<br>Gallu cynllunio, cyflwyno, gwerthuso ac asesu prosesau addysgu, ymgysylltu'n effeithiol â myfyrwyr a chydweithio â chydweithwyr er mwyn helpu i wella eu hymarferion addysgu eu hunain ac ymarferion addysgu eraill | **Gwybodaeth a Gwerthoedd Proffesiynol**<br>Ymgysylltu â datblygiad proffesiynol parhaus a'i gymhwyso er mwyn gwella ymarfer addysgol a'ch trywydd fel addysgwr | • Tystiolaeth o fuddsoddiad personol mewn ysgolheictod dysgu ac addysgu, gan sicrhau bod prosesau addysgu yn seiliedig ar y ddealltwriaeth ddiweddaraf/bresennol o ymchwil/ysgolheictod yn y maes (er enghraifft trwy Advance HE neu gymhwyster cyfatebol e.e. yr AOME (Cydnabyddiaeth o Addysgwyr Meddygol))<br>• Cymryd rhan mewn gweithgareddau DPP, fel mynychu gweithdai neu gynadleddau, sydd wedi arwain at wella ymarfer addysgu<br>• Gwella ymarfer drwy weithredu ar adborth, er enghraifft o'r broses arsylwi gan gymheiriaid. |
| | **Datblygu'r cwricwlwm, a'r amgylchedd dysgu**<br>Gweithgareddau sy'n arwain at welliannau amlwg i'r cwricwlwm, gwelliannau i'r amgylchedd dysgu neu greu gweithgareddau sy'n datblygu unigolion a grwpiau amrywiol o ddysgwyr | • Gwella addysgu yn barhaus er mwyn hyrwyddo gwybodaeth myfyrwyr a datblygu eu sgiliau<br>• Defnydd myfyriol o dechnolegau ac adnoddau addysgu digidol a/neu dechnolegau ac adnoddau addysgu eraill ar gyfer addysgu ar lefel modiwl<br>• Hyrwyddo amgylchedd dysgu cynhwysol ar lefel modiwl<br>• Gweithio mewn partneriaeth â myfyrwyr, gan gynnwys ymateb i adborth gan fyfyrwyr, gyda thystiolaeth o effaith ar fodiwlau a rhaglenni |
| | **Cymorth i ddysgwyr, cymunedau dysgwyr a'r effaith ar ddysgwyr**<br>Enghreifftiau o welliannau i gymorth i ddysgwyr, a datblygu cymunedau dysgwyr sy'n gwella ymdeimlad myfyrwyr o berthyn, gan gynnwys tystiolaeth o effaith | • Darparu tiwtora personol i gefnogi dysgu myfyrwyr ac ymdeimlad o berthyn, gan gydnabod anghenion a phrofiadau amrywiol<br>• Darparu adborth i fyfyrwyr ar gyfer dysgu effeithiol<br>• Adborth cadarnhaol gan fyfyrwyr, adolygiadau gan gymheiriaid/ gwerthusiad cadarn o ddeilliannau addysgu ac asesu, deilliannau arsylwi gan gymheiriaid<br>• Datblygu gweithgareddau sy'n datblygu cymuned gynhwysol ac ymdeimlad o berthyn ar lefel pwnc neu adran<br>• Datblygu gweithgareddau sy'n gwella perfformiad myfyrwyr mewn perthynas â chadw myfyrwyr, cynnydd, cynhwysiant neu Briodweddau Graddedigion ar lefel modiwl |
| | **Dylanwad ar gymunedau academaidd/dysgwyr ehangach**<br>Tystiolaeth o ddylanwad cadarnhaol ar gydweithwyr a'r gymuned academaidd ehangach er mwyn gwella profiad addysgol myfyrwyr | • Cydweithio ag aelodau eraill o dîm y rhaglen er mwyn gwella'r broses o gynllunio a chyflwyno'r rhaglen.<br>• Mentora cydweithwyr ac ymgysylltu mewn ffordd gadarnhaol â'r broses arsylwi gan gymheiriaid<br>• Cyfrannu at waith i ddatblygu addysgu yn yr Ysgol/adran y tu hwnt i ddyletswyddau addysgu penodedig yr ymgeisydd<br>• Cymryd rhan mewn prosiectau neu yn rhaglenni addysg yr Ysgol neu'r adran gyda thystiolaeth o effaith |

| Disgrifydd | Parthau | Enghreifftiau |
|---|---|---|
| **YMCHWIL**<br>Datblygu enw da rhyngwladol[ii], gan ddylanwadu ar y maes, trwy ragoriaeth eu syniadau ac allbynnau ymchwil, a allai gynnwys cyfraniad sylweddol at effaith | **Cyfrannu at gynhyrchu gwybodaeth**<br>Cyfraniadau amlwg at gynhyrchu gwybodaeth a syniadau, sut maen nhw wedi cael eu cyfleu ac unrhyw gyllid neu ddyfarniadau sy'n cydnabod y gweithgarwch hwn | • Cyhoeddi allbynnau gwreiddiol[1], wedi'u hadolygu gan gymheiriaid, sy'n berthnasol i'r ddisgyblaeth ac sy'n gwneud cyfraniadau o bwys rhyngwladol at y maes a hynny oherwydd eu gwreiddioldeb, eu harwyddocâd a'u trylwyredd<br>• Mabwysiadu arferion ymchwil agored i gefnogi prosesau atgynhyrchedd ymchwil ac yn unol â normau disgyblaethol<br>• Creu incwm allanol neu gaffael adnoddau eraill sydd eu hangen i wneud gwaith ymchwil gan gyrff cyllido, naill ai fel unigolyn neu aelod o dîm, e.e. UKRI, yr Undeb Ewropeaidd, elusennau neu fusnesau fel sy'n briodol i'r ddisgyblaeth gan nodi cyfraniadau penodol at grantiau sawl ymgeisydd, e.e. wrth wneud cais a gwneud y gwaith ymchwil.<br>• Cydnabyddiaeth gan gyrff academaidd neu broffesiynol, er enghraifft, trwy wobrau |
| | **Cyfrannu at ddatblygiad unigolion**<br>Dangos sut mae arbenigedd wedi cael ei ddarparu i dimau, ymchwilwyr unigol a'r gymuned academaidd ehangach er mwyn cynorthwyo eu datblygiad | • Goruchwyliaeth effeithiol ac empathig (gan gynnwys goruchwylio myfyrwyr ar y cyd neu fel ail oruchwylydd) a mentora myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig o gefndiroedd amrywiol, gan gynnwys myfyrwyr DBA, PhD, MRes; rhoi sylwadau ar gyfraddau cwblhau ôl-raddedig gyda thystiolaeth o lwyddiant o'r cyfnod ymrestru i gwblhau<br>• Goruchwylio a mentora Ymchwilwyr Gyrfa Gynnar yn effeithiol ac empathig gan roi sylw dyledus i egwyddorion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant<br>• Goruchwylio neu gyd-oruchwylio traethodau hir, traethodau ymchwil a phrosiectau ôl-raddedig<br>• Hyrwyddo a gwerthfawrogi cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn ffordd weithredol, gan weithredu fel esiampl dda a meithrin diwylliant ymchwil cynhwysol |
| | **Cyfraniad at y gymuned ymchwil ac arloesi ehangach**<br>Datblygu'r gymuned ehangach drwy rwydweithiau ymchwil cydweithredol a phenodiadau i rolau â chyfrifoldeb | • Cyfraniadau llwyddiannus ac ystyrlon at gymunedau gwybodaeth o fewn a thu hwnt i'r Brifysgol<br>• Cymryd rhan mewn gweithgareddau galluogi megis ychwanegu gwerth at rwydwaith amlddisgyblaethol;<br>• O fewn normau'r ddisgyblaeth, gweithredu fel adolygydd i gyfnodolyn yn rheolaidd ar gyfer cyfnodolion priodol sy'n berthnasol i'r gwaith ymchwil<br>• Cyflwyniadau mewn cynadleddau rhyngwladol, gweithdai a/neu gyfarfodydd rhwydwaith.<br>• Aelod Gweithredol o Gorff Proffesiynol / Cymdeithas Ddysgedig briodol<br>• Sefydlu a chymryd rhan mewn grwpiau arbenigol<br>• Cychwyn neu gymryd rhan mewn prosiectau ymchwil cydweithredol cenedlaethol a rhyngwladol |

[1]Monograffau a llyfrau, cyfraniadau at gyfrolau wedi'u golygu, rhifynnau ysgolheigaidd, catalogau, prif gronfeydd data ymchwil, meddalwedd, cynhyrchion masnachol, entrepreneuraidd neu ddiwydiannol, datblygiadau ymarfer clinigol, cynhyrchion addysgol, cyhoeddiadau polisi, darnau ac allbynnau synthesis tystiolaeth yn y cyfryngau)

| | | |
|---|---|---|
| | | • Gweithio gyda chydweithwyr i drefnu cynhadledd ryngwladol lwyddiannus a golygu'r trafodion |
| | **Cyfrannu at gymdeithas ehangach**<br>Cyfnewid gwybodaeth gyda rhanddeiliaid perthnasol sy'n cael effaith amlwg | • Cysylltiadau cyfnewid gwybodaeth cynhyrchiol e.e. gyda diwydiant, y llywodraeth, a chyrff proffesiynol ac ariannu sy'n cael effaith gadarnhaol a mesuradwy;<br>• Tystiolaeth o adborth cadarnhaol gan randdeiliaid<br>• Cyfrannu at astudiaethau achos effaith |

| Disgrifydd | Parth | Enghreifftiau |
|---|---|---|
| **ARLOESI, YMGYSYLLTU A MENTER**<br>Cyfraniadau sylweddol, effeithiol a chynyddol ym meysydd arloesi, ymgysylltu neu fenter | **Deilliannau ac Effaith**<br>Sicrhau deilliannau ac effaith amlwg sy'n ychwanegu gwerth trwy syniadaeth a/neu drosglwyddo syniadau, dulliau, cynhyrchion, gwasanaethau neu atebion, er enghraifft i fusnesau, y llywodraeth, iechyd a llesiant, yr amgylchedd, cymdeithas, a bywyd diwylliannol, yn fewnol ac yn allanol gan sicrhau effaith. | • Gwneud cyfraniad sylweddol at fesurau seiliedig ar ddata sy'n cael eu cydnabod yn allanol (e.e. HEBCI, Sgôr QS, NSS) a gwaith dilynol (e.e. newid polisi, newid i iechyd cymdeithas).<br>• Datblygu a/neu gyflwyno cytundebau allanol (e.e. TNE) gan ddangos deilliannau cadarnhaol ac effaith ymgysylltiad llwyddiannus<br>• Darparu gweithgareddau mentrus, cydweithredol, cynyddol, arwyddocaol ac arloesol parhaus sydd o fudd i'r Brifysgol (e.e. ariannol neu enw da) gan weithio gydag unigolion, cymunedau neu rwydweithiau |
| | **Prosiectau a Gweithgareddau**<br>Dylunio, cynllunio, rheoli a chyflwyno gweithgareddau prosiect arloesol, gan gynnwys sicrhau adnoddau mewnol ac allanol gofynnol gan noddwyr fel sylfaen i brosiectau a'r gweithgareddau. | • Arwain prosiect neu raglen o'r dechrau'n deg i'r gwaith cyflawni a'i gwblhau'n llwyddiannus<br>• Cynyddu cyllid neu adnoddau gan bartneriaid mewnol ac allanol i gyflwyno prosiect, ymgynghoriaeth neu raglen waith<br>• Hwyluso prosesau cydweithio gyda phoblogaeth amrywiol o gydweithwyr gan arwain at incwm cydweithredol cynyddol<br>• Manteisio ar eiddo deallusol a gwybodaeth er budd cymdeithas a / neu'r economi. |
| | **Cyfathrebu a Phartneriaethau**<br>Cyflawni a chymryd rhan mewn prosesau cyfathrebu mewnol ac allanol effeithiol gyda chyrhaeddiad. Adnabod a datblygu partneriaethau ystyrlon gyda rhanddeiliaid allanol sy'n arwain at effaith. | • Datblygu partneriaethau newydd, arloesol, arwyddocaol o'r dechrau'n deg i gyflawni a chynnal partneriaethau sy'n bodoli'n barod sy'n ychwanegu gwerth i'r Brifysgol, e.e. canolfannau hyfforddi doethurol, partneriaethau (academaidd neu anacademaidd), gweithgareddau, cynadleddau, offer meddalwedd mynediad agored gyda rhanddeiliaid allanol, e.e. gyda grwpiau cymunedol, elusennau, ysgolion, y llywodraeth, diwydiant neu fyrddau iechyd<br>• Ymgysylltiad cynyddol ac arloesol trwy gyhoeddiadau, cynadleddau, neu'r cyfryngau gyda chyrhaeddiad.<br>• Ymgysylltiad â chyflogwyr sy'n berthnasol i'r ddisgyblaeth e.e. am flwyddyn mewn diwydiant, lleoliadau haf |

| Disgrifydd | Parth | Enghreifftiau |
|---|---|---|
| **COLEGOLDEB, ARWEINYDDIAETH, RHEOLI a GWASANAETH** Gallu cyfrannu mewn ffordd foddhaol at amrywiaeth o swyddi gweinyddol yn ymwneud â gweithgarwch academaidd | **Colegoldeb/Gwasanaeth** Darparu enghreifftiau myfyriol o sut rydych chi wedi dangos dinasyddiaeth barhaus ac **wedi cymryd rhan** yn gyson yn ystod cyfnod eich penodiad. Rhowch dystiolaeth o effaith sy'n briodol i'r lefel. | • Cyfrannwr gweithgar at weithgareddau, pwyllgorau neu weithgorau Adran / Ysgol neu thema drawsbynciol (e.e. Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, dealltwriaeth artiffisial, cyflogadwyedd, rhyngwladoli, profiad myfyrwyr, y Gymraeg).<br>• Cyfrannu at fentrau datblygu'r Adran / Ysgol a allai ymwneud ag ymchwil, addysgu neu gymorth i fyfyrwyr.<br>• Cymryd rhan weithredol mewn gweithgareddau recriwtio myfyrwyr cartref a rhyngwladol ar gyfer y maes pwnc<br>• Adolygu fel cymheiriaid allbynnau ymchwil / ceisiadau grant<br>• Cyfrannu at drefnu cynhadledd neu gyfres o seminarau (e.e. disgyblaeth / Ysgol).<br>• Gweithio gyda chydweithwyr i sicrhau bod gweithgareddau yn cyd-fynd â strategaeth ymchwil y Brifysgol a'r Gyfadran ar gyfer allbynnau a gweithgarwch<br>• Helpu i gyflwyno grant neu brosiect mawr, gyda chanlyniadau amlwg |
| | **Datblygu, Mentora a Rheoli Eraill** Rheoli a datblygu eraill, gan gynnwys o bosibl gwaith mentora, rheoli llinell, neu reoli grwpiau ac unedau | • Gweithredu fel mentor ffurfiol neu gyfaill i eraill (cydweithwyr, cynorthwywyr addysgu)<br>• Gweithredu fel mentor anffurfiol neu gyfaill i eraill (e.e. cydweithwyr, cynorthwywyr addysgu)<br>• Uwchsgilio cydweithwyr |
| | **Arwain yn y Brifysgol** Cyfranogiad ac arweinyddiaeth fewnol yn y Brifysgol yn ymwneud â phortffolio penodol neu gyfrifoldeb am feysydd gweithgarwch cyfan | • Dylanwadu ar y broses o lunio maes pwnc neu benderfyniadau a gweithgareddau adran<br>• Dylanwadu ar fenter datblygu maes pwnc a allai ymwneud ag ymchwil, addysgu neu gymorth i fyfyrwyr<br>• Cymryd rhan weithredol mewn grŵp/canolfan/sefydliad ymchwil yn ymwneud â maes pwnc<br>• Derbyn cyfrifoldeb a chyflawni rôl weinyddol ar lefel pwnc (e.e. Cydlynydd Arholiadau, Cydlynydd Modiwlau, Swyddog Deallusrwydd Artiffisial, Swyddog Derbyniadau, Swyddog y Gymraeg)<br>• Rhannu arferion gorau ym maes addysgu neu ymchwil mewn cyfarfod / pwyllgor / cynhadledd berthnasol (darparu DPP i eraill)<br>Cymryd rhan mewn gweithgareddau undebau llafur (gan sicrhau eich bod yn dangos yr effaith ar weithio mewn partneriaeth a sut rydych chi'n cynorthwyo cydweithwyr a mentrau i wella'r ffordd y caiff y brifysgol ei rhedeg) |

# Athro Cyswllt – Addysg ac Ymchwil (Ymchwil)

| Disgrifydd | Parthau | Enghreifftiau |
|---|---|---|
| **ADDYSG**<br>Gallu cynllunio, cyflwyno, gwerthuso ac asesu prosesau addysgu i safon dda, ymgysylltu'n effeithiol â myfyrwyr a chydweithio â chydweithwyr er mwyn helpu i wella eu hymarferion addysgu eu hunain ac ymarferion addysgu eraill | **Gwybodaeth a Gwerthoedd Proffesiynol**<br>Ymgysylltu â datblygiad proffesiynol parhaus a'i gymhwyso er mwyn gwella ymarfer addysgol a'ch trywydd fel addysgwr | • Tystiolaeth o ymgysylltiad personol â Dysgu Proffesiynol Parhaus, er enghraifft trwy gymrodoriaeth Advance HE neu gymhwyster cyfatebol e.e. yr AOME (Cydnabyddiaeth yr Addysgwyr Meddygol)<br>• Tystiolaeth o ymgysylltiad personol parhaus ag ysgolheictod dysgu ac addysgu, a'i effaith ar lwyddiant myfyrwyr<br>• Gwella ymarfer drwy weithredu ar adborth, er enghraifft o'r broses arsylwi gan gymheiriaid |
| | **Datblygu'r cwricwlwm, a'r amgylchedd dysgu**<br>Gweithgareddau sy'n arwain at welliannau amlwg i'r cwricwlwm, gwelliannau i'r amgylchedd dysgu neu greu gweithgareddau sy'n datblygu unigolion a grwpiau amrywiol o ddysgwyr | • Cynllunio a chyflwyno prosesau addysgu ac asesu mewn ffordd sy'n hyrwyddo datblygiad sgiliau myfyrwyr ar lefel rhaglen<br>• Gwella'r defnydd o dechnolegau ac adnoddau addysgu digidol a/neu dechnolegau ac adnoddau addysgu eraill ar gyfer dysgu ar lefel rhaglen gyda thystiolaeth o effaith<br>• Creu amgylchedd dysgu cynhwysol ar lefel modiwl a rhaglen<br>• Gweithio mewn partneriaeth â myfyrwyr i sicrhau bod lleisiau myfyrwyr amrywiol wedi'u cynnwys yn y gwaith o ddatblygu'r cwricwlwm ar lefel rhaglen |
| | **Cymorth i ddysgwyr, cymunedau dysgwyr a'r effaith ar ddysgwyr**<br>Enghreifftiau o welliannau i gymorth i ddysgwyr, a datblygu cymunedau dysgwyr sy'n gwella ymdeimlad myfyrwyr o berthyn, gan gynnwys tystiolaeth o effaith | • Ymgysylltiad rhagweithiol â thiwtora personol sy'n creu adborth cadarnhaol gan amrywiaeth eang o fyfyrwyr<br>• Cynllunio ac asesu adborth ar gyfer dysgu, gyda thystiolaeth o effaith gadarnhaol<br>• Adborth cadarnhaol gan fyfyrwyr, adolygiadau gan gymheiriaid/ gwerthusiad cadarn o ddeilliannau addysgu ac asesu, deilliannau arsylwi gan gymheiriaid<br>• Datblygu gweithgareddau sy'n datblygu cymuned gynhwysol ac ymdeimlad o berthyn ar lefel pwnc neu adran<br>• Datblygu gweithgareddau sy'n gwella perfformiad myfyrwyr mewn perthynas â chadw myfyrwyr, cynnydd, cynhwysiant neu Briodweddau Graddedigion ar lefel rhaglen |
| | **Dylanwad ar gymunedau academaidd/dysgwyr ehangach**<br>Tystiolaeth o ddylanwad cadarnhaol ar gydweithwyr a'r gymuned academaidd ehangach er mwyn gwella profiad addysgol myfyrwyr | • Dangos arweinyddiaeth ar lefel rhaglen er mwyn meithrin dulliau cydweithredol o gynllunio rhaglenni a methodolegau addysgu.<br>• Mentora cydweithwyr ac ymgysylltu mewn ffordd gadarnhaol â'r broses arsylwi gan gymheiriaid<br>• Lledaenu ymarfer addysg effeithiol i eraill gyda thystiolaeth o effaith gadarnhaol, e.e. trwy weithdai, seminarau adran neu Ysgol, cynadleddau neu flogiau<br>• Cymryd rhan mewn prosiectau neu yn rhaglenni addysg yr Ysgol neu'r gyfadran gyda thystiolaeth o effaith |

| Descriptor | Domains | Examples |
|---|---|---|
| **YMCHWIL**<br>Yn meddu ar enw da rhyngwladol[ii], ar gyfer ymchwil a dylanwadu ar y maes, trwy ragoriaeth eu syniadau ac allbynnau ymchwil, a allai gynnwys cyfraniad sylweddol at effaith | **Cyfrannu at gynhyrchu gwybodaeth**<br>Cyfraniadau amlwg at gynhyrchu gwybodaeth a syniadau, sut maen nhw wedi cael eu cyfleu ac unrhyw gyllid neu ddyfarniadau sy'n cydnabod y gweithgarwch hwn | • Cydnabyddiaeth gan gyrff academaidd neu broffesiynol, er enghraifft, drwy wobrau mawreddog<br>• Cyhoeddi portffolio o allbynnau gwaith ymchwil gwreiddiol[1] a adolygwyd gan gymheiriaid, sy'n berthnasol i'r ddisgyblaeth ac sy'n gwneud cyfraniadau rhyngwladol rhagorol, sy'n gynyddol ar faes y gad, at y maes a hynny oherwydd eu gwreiddioldeb, eu harwyddocâd a'u trylwyredd<br>• Mabwysiadu arferion ymchwil agored i gefnogi prosesau atgynhyrchedd ymchwil ac yn unol â normau disgyblaethol<br>• Llwyddiant parhaus wrth sicrhau cyllid ymchwil sylweddol neu adnoddau eraill fel sylfaen i waith ymchwil e.e. gan UKRI, yr Undeb Ewropeaidd, ymddiriedolaethau elusennol, y trydydd sector, a diwydiant, fel Prif Ymchwilydd a Chyd-ymchwilydd gyda mewnbwn sylweddol sy'n briodol i'r maes |
| | **Cyfrannu at ddatblygiad unigolion**<br>Dangos sut mae arbenigedd wedi cael ei ddarparu i dimau, ymchwilwyr unigol a'r gymuned academaidd ehangach er mwyn cynorthwyo eu datblygiad | • Goruchwyliaeth effeithiol ac empathig (gan gynnwys goruchwylio myfyrwyr ar y cyd neu fel ail oruchwylydd) a mentora myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig o gefndiroedd amrywiol, gan gynnwys myfyrwyr DBA, PhD, MRes; rhoi sylwadau ar gyfraddau cwblhau ôl-raddedig gyda thystiolaeth o lwyddiant o'r cyfnod ymrestru i gwblhau<br>• Goruchwylio a mentora Ymchwilwyr Gyrfa Gynnar yn effeithiol ac empathig gan roi sylw dyledus i egwyddorion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant<br>• Cefnogi goruchwylwyr i rannu arferion gorau a gwersi a ddysgwyd ac ymgysylltu â rhaglen hyfforddi'r Swyddfa Ymchwil Ôl-raddedig i helpu i lunio a chefnogi sesiynau hyfforddi a deunyddiau; helpu i sicrhau bod gweithgareddau Ymchwil Ôl-raddedig yn cefnogi diwylliant o ragoriaeth a chynwysoldeb<br>• Darparu hyfforddiant ymchwil i eraill gan gynnwys cymorth i Ymchwilwyr Gyrfa Gynnar, cynorthwyo cydweithwyr gyda cheisiadau grant a gwella allbynnau, cyfnewid gwybodaeth a'i effaith, ymgymryd â gwaith adolygiadau gan gymheiriaid o fewn cymunedau ymarfer y ddisgyblaeth<br>• Hyrwyddo a gwerthfawrogi cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn ffordd weithredol, gweithredu fel esiampl dda a datblygu diwylliant ymchwil cynhwysol |
| | **Cyfraniad at y gymuned ymchwil ac arloesi ehangach**<br>Datblygu'r gymuned ehangach drwy rwydweithiau ymchwil cydweithredol a phenodiadau i rolau â chyfrifoldeb | • Gwahoddiadau i wneud cyflwyniadau mewn cynadleddau sy'n denu cyfranogwyr rhyngwladol<br>• Cyfrannu'n llwyddiannus ac ystyrlon at grwpiau ymchwil o fewn a thu hwnt i'r brifysgol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol;<br>• Cymryd rhan mewn gweithgareddau galluogi megis ychwanegu gwerth at rwydwaith amlddisgyblaethol;<br>• Adolygu gan gymheiriaid ac aelodaeth o baneli ar gyfer arianwyr<br>• Gwasanaeth gweithredol o fewn Corff Proffesiynol / Cymdeithas Ddysgedig briodol<br>• Trefnu cynhadledd ryngwladol<br>• Arwain gweithgaredd ymchwil allanol Cyfadran/Ysgol, gan lunio ei safbwynt strategol a'i ddatblygiad |
| | **Cyfrannu at gymdeithas ehangach**<br>Cyfnewid gwybodaeth gyda rhanddeiliaid perthnasol sy'n cael effaith amlwg | • Sefydlu a/neu ddatblygu cydberthnasau lefel uchel a phrosesau cydweithio gyda diwydiant, y llywodraeth, cyrff proffesiynol, a grwpiau amlddisgyblaethol er mwyn cyfnewid gwybodaeth a sicrhau canlyniadau |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Cysylltiadau rhwydweithio cynhyrchiol e.e. gyda diwydiant, y llywodraeth, y trydydd sector, a buddsoddwyr er mwyn manteisio ar eiddo deallusol, sy'n cael effaith gadarnhaol a mesuradwy y tu hwnt i'r byd academaidd e.e. cymdeithasol, economaidd, polisi, ymarfer<br>• Cynghori rhanddeiliaid allweddol, e.e. llunwyr polisi ar lefel leol, genedlaethol neu ryngwladol<br>• Cyfrannu at astudiaethau achos effaith, gan gynnwys fel Awdur neu Gyd-awdur astudiaeth achos effaith ar gyfer REF |

| Disgrifydd | Parth | Enghreifftiau |
|---|---|---|
| **ARLOESI, YMGYSYLLTU A MENTER**<br>Arweinyddiaeth gydnabyddedig trwy gorff o waith sylweddol, dylanwadol a chynyddol ym maes arloesi, ymgysylltu neu fenter | **Deilliannau ac Effaith**<br>Sicrhau deilliannau ac effaith amlwg sy'n ychwanegu gwerth trwy syniadaeth a/neu drosglwyddo syniadau, dulliau, cynhyrchion, gwasanaethau neu atebion, er enghraifft i fusnesau, y llywodraeth, iechyd a llesiant, yr amgylchedd, cymdeithas, a bywyd diwylliannol, yn fewnol ac yn allanol gan sicrhau effaith | • Arwain cyfraniadau sylweddol a chynyddol at fesurau seiliedig ar ddata sy'n cael eu cydnabod yn allanol (e.e. HEBCI, Sgôr QS, NSS) a gwaith dilynol (e.e. newid polisi, newid i iechyd cymdeithas).<br>• Cychwyn, datblygu a sicrhau cytundebau allanol arwyddocaol (e.e. TNE) gan ddangos deilliannau cadarnhaol ac effaith ymgysylltiad llwyddiannus<br>• Darparu gweithgareddau mentrus, cydweithredol, hynod arwyddocaol a pharhaus sydd o fudd i'r Brifysgol (e.e. ariannol neu enw da) gan weithio gydag unigolion, cymunedau neu rwydweithiau |
| | **Prosiectau a Gweithgareddau**<br>Dylunio, cynllunio, rheoli a chyflwyno gweithgareddau prosiect arloesol, gan gynnwys sicrhau adnoddau mewnol ac allanol gofynnol gan noddwyr fel sylfaen i brosiectau a'r gweithgareddau | • Arwain prosiect neu raglen arwyddocaol o'r dechrau'n deg i'r gwaith cyflawni a'i gwblhau'n llwyddiannus<br>• Denu cyllid neu adnoddau sylweddol a chynyddol gan bartneriaid mewnol ac allanol i gyflwyno prosiect, ymgynghoriaeth neu raglen waith<br>• Arwain (a chefnogi cydweithwyr) i ddatblygu ymgysylltiad arloesol, rhagorol a chynyddol y tu hwnt i'r byd academaidd e.e. gwyddoniaeth dinasyddion, y celfyddydau cyfranogol, dysgu yn y gymuned, creu platfformau i hyrwyddo gwybodaeth y cyhoedd, masnacheiddio, rhaglenni deillio, cyfnewid gwybodaeth a gweithgareddau mentrau cymdeithasol<br>• Cynllunio a chyflwyno rhaglen addysgol arwyddocaol (e.e. CTDs, DPP neu TNE) i ddiwallu anghenion partneriaid allanol<br>• Hyrwyddo prosesau cydweithio â phoblogaeth amrywiol o gydweithwyr gan arwain at incwm cydweithredol sylweddol sy'n cynyddu<br>• Manteisio ar eiddo deallusol a gwybodaeth er budd cymdeithas a/neu'r economi |
| | **Cyfathrebu a Phartneriaethau**<br>Cyflawni a chymryd rhan mewn prosesau cyfathrebu mewnol ac allanol effeithiol gyda chyrhaeddiad. Adnabod a datblygu partneriaethau ystyrlon gyda rhanddeiliaid allanol sy'n arwain at effaith. | • Datblygu partneriaethau newydd, arloesol, arwyddocaol o'r dechrau'n deg i gyflawni a chynnal partneriaethau sy'n bodoli'n barod sy'n ychwanegu gwerth i'r Brifysgol, e.e. canolfannau hyfforddi doethurol, partneriaethau rhyngwladol (academaidd neu anacademaidd), addysg drawswladol (e.e. TNE), gweithgareddau, cynadleddau, offer meddalwedd mynediad agored gyda rhanddeiliaid allanol, e.e. gyda grwpiau cymunedol, elusennau, ysgolion, y llywodraeth, diwydiant neu fyrddau iechyd<br>• Ymgysylltiad cynyddol, effeithiol ac arloesol trwy gyhoeddiadau, cynadleddau, neu'r cyfryngau gyda chyrhaeddiad.<br>• Cyfraniad helaeth a chynyddol at bwyllgorau, grwpiau diddordeb arbennig, paneli adolygu neu rwydwaith sy'n datblygu polisïau lleol/rhanbarthol neu safonau meincnod mewn cyrff allanol<br>• Sbarduno cydnabyddiaeth gan gyrff priodol, er enghraifft trwy ddyfarniadau, gwobrau, Cymrodoriaethau, enwebiadau ac ati. |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Ymgysylltiad cynyddol â chyflogwyr sy'n berthnasol i'r ddisgyblaeth e.e. am flwyddyn mewn diwydiant, lleoliadau haf sy'n arwain at ddeilliannau |

| Disgrifydd | Parth | Enghreifftiau |
|---|---|---|
| **COLEGOLDEB ARWEINYDDIAETH, RHEOLAETH A GWASANAETH** Hanes o allu rheoli o fewn yr Ysgol neu'r Adran. Dangos gallu arweinyddiaeth o fewn grŵp neu adran ehangach. | **Colegoldeb/Gwasanaeth** Darparu enghreifftiau myfyriol o sut rydych chi wedi arddangos dinasyddiaeth barhaus ac **wedi gwneud cyfraniad** cyson. Rhowch dystiolaeth o'ch effaith ar y lefel briodol. | • Cyfrannwr gweithredol at weithgareddau, pwyllgorau neu weithgorau Adran / Ysgol neu thema drawsbynciol (e.e. Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, dealltwriaeth artiffisial, cyflogadwyedd, rhyngwladoli, profiad myfyrwyr, y Gymraeg<br>• Cyfrannu at fentrau datblygu'r Adran / Ysgol a allai ymwneud ag ymchwil, addysgu neu gymorth i fyfyrwyr<br>• Cymryd rhan weithredol mewn gweithgareddau recriwtio myfyrwyr cartref a rhyngwladol ar gyfer y maes pwnc.<br>• Adolygiad gan gymheiriaid o allbynnau ymchwil / ceisiadau grant |
| | **Datblygu, Mentora a Rheoli Eraill** Cyfraniad sylweddol at reoli a datblygu ystod amrywiol o gydweithwyr, gan gynnwys o bosibl gwaith mentora, rheoli llinell, neu reoli grwpiau ac unedau | • Cyfrannu at drefnu cynhadledd neu gyfres o seminarau (e.e. disgyblaeth / Ysgol).<br>• Mentora ffurfiol neu anffurfiol (gan gynnwys arweiniad tuag at ddeilliannau prawf llwyddiannus) o grŵp amrywiol o gydweithwyr / cynorthwywyr addysgu<br>• Hyfforddiant a phrofiad perthnasol a fydd yn arwain at allu i reoli nifer o gydweithwyr, gan gydnabod anghenion penodol unigolion o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol<br>• Cynnal cymwysterau proffesiynol a chymryd rhan mewn gwaith mentora cydweithwyr mewnol / allanol sydd eisiau ennill cymwysterau.<br>• Gweithredu fel adolygydd PDR ar gyfer cydweithwyr<br>• Hanes o weithredu fel arholwr mewnol a/neu allanol ar gyfer myfyrwyr doethuriaeth |
| | **Arwain yn y Brifysgol** Cyfranogiad ac arweinyddiaeth fewnol yn y Brifysgol, gan gael effaith sylweddol ar bortffolio penodol neu dderbyn cyfrifoldeb am feysydd gweithgarwch cyfan | • Cyflawni rôl arweinyddiaeth wrth lunio a chyflwyno penderfyniadau, strategaethau a gweithgareddau cynhwysol yr Adran.<br>• Dylanwadu ar y broses o lunio polisi'r Ysgol mewn perthynas â gweithgareddau strategol. Arwain menter ddatblygu'r Adran / Ysgol a allai ymwneud ag ymchwil, addysgu neu gymorth i fyfyrwyr<br>• Cyflawni rôl arweiniol mewn grŵp/canolfan/sefydliad ymchwil yr Ysgol<br>• Arweinydd uned, effaith neu amgylchedd ar gyfer REF<br>• Derbyn cyfrifoldeb a chyflawni rôl weinyddol ar lefel Adran / Ysgol (e.e. Cydlynydd Arholiadau, Cydlynydd Modiwlau gyda staff addysgu lluosog, Swyddog Deallusrwydd Artiffisial, Swyddog Derbyniadau, Swyddog y Gymraeg) a chyflwyno mentrau datblygu<br>• Gwneud cyfraniad sylweddol at weithgareddau undebau llafur (gan sicrhau eich bod yn dangos yr effaith ar weithio mewn partneriaeth a sut rydych chi'n cynorthwyo cydweithwyr a mentrau i wella sut y caiff y brifysgol ei rhedeg) |

# Athro – Addysg ac Ymchwil (Ymchwil)

| Disgrifydd | Parthau | Enghreifftiau |
|---|---|---|
| **ADDYSG**<br>Gallu cynllunio, cyflwyno, gwerthuso ac asesu prosesau addysgu i safon dda, ymgysylltu'n effeithiol â myfyrwyr a chydweithio â chydweithwyr er mwyn helpu i wella eu hymarferion addysgu eu hunain ac ymarferion addysgu eraill | **Gwybodaeth a Gwerthoedd Proffesiynol**<br>Ymgysylltu â datblygiad proffesiynol parhaus a'i gymhwyso er mwyn gwella ymarfer addysgol a'ch trywydd fel addysgwr | • Tystiolaeth o ymgysylltiad personol cyson ag ysgolheictod dysgu ac addysgu a Dysgu Proffesiynol Parhaus, er enghraifft trwy gymrodoriaeth Advance HE neu gydnabyddiaeth gyfatebol e.e. yr AOME (Cydnabyddiaeth o Addysgwyr Meddygol)<br>• Cymryd rhan mewn gweithgareddau DPP, fel mynychu gweithdai neu gyrsiau eraill sydd wedi gwella ymarfer addysgu a llwyddiant myfyrwyr.<br>• Gwella ymarfer trwy weithredu ar adborth, er enghraifft o'r broses arsylwi ar gymheiriaid |
| | **Datblygu'r cwricwlwm, a'r amgylchedd dysgu**<br>Gweithgareddau sy'n arwain at welliannau amlwg i'r cwricwlwm, gwelliannau i'r amgylchedd dysgu neu greu gweithgareddau sy'n datblygu unigolion a grwpiau amrywiol o ddysgwyr | • Arweinyddiaeth ym maes cynllunio a chyflwyno prosesau addysgu ac asesu sy'n hyrwyddo datblygiad sgiliau myfyrwyr ar lefel adran neu Ysgol<br>• Gwella'r defnydd o dechnolegau ac adnoddau addysgu digidol a/neu dechnolegau ac adnoddau addysgu eraill ar gyfer dysgu ar lefel adran neu Ysgol gan gynnwys tystiolaeth o effaith<br>• Arwain y gwaith o ddatblygu amgylcheddau dysgu a chwricwla priodol, effeithiol a chynhwysol ar lefel Adran ac Ysgol<br>• Gweithio mewn partneriaeth â phoblogaethau amrywiol o fyfyrwyr er mwyn sicrhau bod llais myfyrwyr wedi'i gynnwys mewn polisïau ac arferion ar lefel Adran ac Ysgol |
| | **Cymorth i ddysgwyr, cymunedau dysgwyr a'r effaith ar ddysgwyr**<br>Enghreifftiau o welliannau i gymorth i ddysgwyr, a datblygu cymunedau dysgwyr sy'n gwella ymdeimlad myfyrwyr o berthyn, gan gynnwys tystiolaeth o effaith | • Ymgysylltiad rhagweithiol â thiwtora personol sy'n arwain at adborth cadarnhaol gan ystod amrywiol o fyfyrwyr<br>• Gwerthuso a hyrwyddo adborth ar gyfer dysgu, gyda thystiolaeth o effaith gadarnhaol<br>• Adborth cadarnhaol gan fyfyrwyr, adolygiadau gan gymheiriaid/ gwerthusiad cadarn o ddeilliannau addysgu ac asesu, deilliannau arsylwi gan gymheiriaid<br>• Datblygu a gwerthuso gweithgareddau sy'n creu cymuned gynhwysol ac ymdeimlad o berthyn ar lefel adran neu ysgol<br>• Datblygu gweithgareddau sy'n gwella perfformiad myfyrwyr mewn perthynas â chadw myfyrwyr, cynnydd, cynhwysiant neu Briodoleddau Graddedigion ar lefel Adran |
| | **Dylanwad ar gymunedau academaidd/dysgwyr ehangach**<br>Tystiolaeth o ddylanwad cadarnhaol ar gydweithwyr a'r gymuned academaidd ehangach er mwyn gwella profiad addysgol myfyrwyr | • Dangos arweinyddiaeth ar lefel adran neu Ysgol trwy ddefnyddio dulliau cydweithredol o adolygu rhaglenni, addysgu a chefnogi dysgwyr<br>• Mentora cydweithwyr a sicrhau bod prosesau ar waith ar gyfer arsylwi ar gymheiriaid yn effeithiol<br>• Lledaenu ymarfer addysg effeithiol i eraill gyda thystiolaeth o effaith gadarnhaol, e.e. trwy weithdai, seminarau ysgol neu gyfadran, cynadleddau neu flogiau<br>• Cymryd rhan mewn prosiectau neu mewn rhaglenni addysg sefydliadol neu allanol gyda thystiolaeth o effaith |

| Disgrifydd | Parthau | Enghreifftiau |
|---|---|---|
| **YMCHWIL**<br>Yn meddu ar enw da rhyngwladol[ii], ar Gyfer arweinyddiaeth gyson yn y maes ymchwil, trwy ragoriaeth eu syniadau, allbynnau ac effaith | **Cyfrannu at gynhyrchu gwybodaeth**<br>Cyfraniadau amlwg at gynhyrchu gwybodaeth a syniadau, sut maen nhw wedi cael eu cyfleu ac unrhyw gyllid neu ddyfarniadau sy'n cydnabod y gweithgarwch hwn | • Cydnabyddiaeth gan gyrff academaidd neu broffesiynol, er enghraifft, drwy wobrau mawreddog<br>• Cyhoeddi portffolio sylweddol o allbynnau gwaith ymchwil gwreiddiol[1] sy’n berthnasol i’r ddisgyblaeth ac sy'n gwneud cyfraniadau sydd ar flaen y gad yn rhyngwladol a hynny oherwydd eu gwreiddioldeb, eu harwyddocâd a'u trylwyredd<br>• Mabwysiadu arferion ymchwil agored i gefnogi prosesau atgynhyrchedd ymchwil ac yn unol â normau disgyblaethol<br>• Llwyddiant parhaus wrth sicrhau cyllid ymchwil sylweddol neu adnoddau eraill fel sylfaen i waith ymchwil e.e. gan UKRI, yr Undeb Ewropeaidd, ymddiriedolaethau elusennol, y trydydd sector, a diwydiant, fel Prif Ymchwilydd a Chyd-ymchwilydd gyda mewnbwn sylweddol sy’n briodol i’r ddisgyblaeth a’r ymchwil sy’n cael ei gynnal<br>• Datblygu ac arwain rhaglen ymchwil unigol neu gydweithredol a gydnabyddir yn rhyngwladol |
| | **Cyfrannu at ddatblygiad unigolion**<br>Dangos sut mae arbenigedd wedi cael ei ddarparu i dimau, ymchwilwyr unigol a'r gymuned academaidd ehangach er mwyn cynorthwyo eu datblygiad | • Arwain cynnydd yn niferoedd y myfyrwyr ôl-raddedig, e.e. trwy leoedd a ariennir yn allanol, gan sicrhau manteision i academyddion lluosog mewn arbenigedd pwnc<br>• Goruchwyliaeth lwyddiannus o fyfyrwyr doethurol o gefndiroedd amrywiol, o ddechrau’r cwrs i’r diwedd;<br>• Integreiddio Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant i’r broses o gynllunio a chyflwyno ymchwil, ac i’r broses o reoli timau ymchwil mewn modd priodol ac ystyrlon, er enghraifft trwy annog staff o grŵp sydd heb gynrychiolaeth ddigonol i ymaelodi â grwpiau ymchwil<br>• Gwaith mentora gan gynnwys, ymysg pethau eraill, cymorth i grwpiau amrywiol o Ymchwilwyr Gyrfa Gynnar, cynorthwyo cydweithwyr gyda cheisiadau grant a gwella allbynnau, cyfnewid gwybodaeth a’i effaith, ymgymryd â gwaith adolygiadau gan gymheiriaid o fewn cymunedau ymarfer y ddisgyblaeth<br>• Hanes o weithredu fel arholwr mewnol a/neu allanol ar gyfer myfyrwyr Doethurol<br>• Cefnogi goruchwylwyr i rannu arferion gorau ac ymgysylltu â rhaglen hyfforddi'r Swyddfa Ymchwil Ôl-raddedig i helpu i lunio a chefnogi sesiynau hyfforddi a deunyddiau<br>• Cyfrannu at weithgareddau/goruchwyliaeth myfyrwyr ôl-raddedig sy’n cefnogi diwylliant o ragoriaeth a chynwysoldeb |
| | **Cyfraniad at y gymuned ymchwil ac arloesi ehangach**<br>Datblygu'r gymuned ehangach drwy rwydweithiau ymchwil cydweithredol a phenodiadau i rolau â chyfrifoldeb | • Gwahoddiadau rheolaidd i wneud cyflwyniadau mewn cynadleddau sy'n denu cyfranogwyr rhyngwladol<br>• Cyfraniadau arweiniol/uwch gynghori ar gyfer pwyllgorau proffesiynol a chymdeithasau dysgedig e.e. cyrff sy’n dyfarnu grantiau, cymdeithasau proffesiynol, gyda chyrff cenedlaethol neu ryngwladol<br>• Aelod o grwpiau/timau a rhwydweithiau cenedlaethol/rhyngwladol.<br>• Denu cyllid a chyflwyno cyfres o seminarau/cynadleddau sy’n cael eu cydnabod yn rhyngwladol<br>• Adolygiad o gynlluniau grant gan gymheiriaid<br>• Aelod o Fwrdd Golygyddol, canolwr ar gyfer cyfnodolion academaidd blaenllaw a chyrff ariannu, aelod o’r panel ar gyfer cyrff dyfarnu;<br>• Gwasanaethau arwyddocaol ar gyfer cymdeithasau dysgedig |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Arwain gweithgaredd ymchwil allanol Cyfadran/Ysgol, gan lunio ei safbwynt strategol a'i ddatblygiad |
| | **Cyfrannu at gymdeithas ehangach**<br>Cyfnewid gwybodaeth gyda rhanddeiliaid perthnasol sy'n cael effaith amlwg | • Cysylltiadau rhwydweithio cynhyrchiol e.e. gyda diwydiant, y llywodraeth, y trydydd sector, a buddsoddwyr ar gyfer manteisio ar Eiddo Deallusol, sy'n cael effeithiau cadarnhaol a mesuradwy y tu hwnt i'r byd academaidd<br>• Cydberthnasau a phrosesau cydweithio lefel uchel wedi'u sefydlu neu wrthi'n cael eu datblygu, e.e. gyda diwydiant, llunwyr polisi'r llywodraeth ar lefel leol, genedlaethol neu ryngwladol, proffesiynol, ac ar gyfer cyfnewid gwybodaeth.<br>• Cyfrannu at astudiaethau achos ymchwil, gan gynnwys fel Awdur neu Gyd-awdur astudiaeth achos effaith ar gyfer REF |

| Disgrifydd | Parth | Enghreifftiau |
| --- | --- | --- |
| **ARLOESI, YMGYSYLLTU A MENTER**<br>Arweinyddiaeth helaeth, gydnabyddedig trwy gorff o waith hynod arwyddocaol, dylanwadol a pharhaus ym maes arloesi, ymgysylltu neu fenter | **Deilliannau ac Effaith**<br>Sicrhau deilliannau ac effaith amlwg sy'n ychwanegu gwerth trwy syniadaeth a/neu drosglwyddo syniadau, dulliau, cynhyrchion, gwasanaethau neu atebion, er enghraifft i fusnesau, y llywodraeth, iechyd a llesiant, yr amgylchedd, cymdeithas, a bywyd diwylliannol, yn fewnol ac yn allanol gan sicrhau effaith | • Darparu gweithgareddau mentrus, cydweithredol, hynod arwyddocaol a pharhaus sydd o fudd i'r Brifysgol (e.e. ariannol neu enw da) gan weithio gydag unigolion, cymunedau neu rwydweithiau<br>• Arwain cyfraniadau sylweddol a pharhaus at fesurau seiliedig ar ddata sy'n cael eu cydnabod yn allanol (e.e. HEBCI, Sgôr QS, NSS) a gwaith dilynol (e.e. newid polisi, newid i iechyd cymdeithas).<br>• Galluogi a chydweithio ar gyflawni ein cenhadaeth ddinesig<br>• Arwain a hwyluso'r broses o ddatblygu a darparu cyfleoedd addysg, ymchwil neu arloesi arwyddocaol gyda grwpiau amrywiol o gydweithredwyr |
| | **Prosiectau a Gweithgareddau**<br>Dylunio, cynllunio, rheoli a chyflwyno gweithgareddau prosiect, gan gynnwys sicrhau adnoddau mewnol ac allanol gofynnol gan noddwyr fel sylfaen i brosiectau a'r gweithgareddau | • Arwain prosiect neu raglen weithgareddau hynod arwyddocaol o'r dechrau'n deg i'r gwaith cyflawni, a'i gwblhau'n llwyddiannus.<br>• Denu cyllid neu adnoddau sylweddol a pharhaus gan bartneriaid mewnol ac allanol i gyflwyno prosiect, ymgynghoriaeth neu raglen waith.<br>• Arwain (a chefnogi cydweithwyr) i ddatblygu ymgysylltiad arloesol, rhagorol a pharhaus y tu hwnt i'r byd academaidd e.e. gwyddoniaeth dinasyddion, y celfyddydau cyfranogol, dysgu yn y gymuned, creu platfformau i hyrwyddo gwybodaeth y cyhoedd, masnacheiddio, rhaglenni deillio, cyfnewid gwybodaeth a gweithgareddau mentrau cymdeithasol<br>• Cynllunio a chyflwyno rhaglen addysgol hynod arwyddocaol a sylweddol (e.e. CDTs, DPP neu TNE) i ddiwallu anghenion partneriaid allanol<br>• Arwain prosesau cydweithio â phoblogaeth amrywiol o gydweithwyr gan arwain at incwm cydweithredol allanol sylweddol a pharhaus<br>• Cynhyrchu astudiaethau achos wedi'u hategu gan dystebau (nid o reidrwydd mewn fformat REF) sy'n dangos sut mae arloesi, ymgysylltu a menter wedi gwella ansawdd bywyd, diwylliant, iechyd, llesiant cymdeithasol a'r economi.<br>• Manteisio ar eiddo deallusol a gwybodaeth er budd cymdeithas a/neu'r economi |
| | **Cyfathrebu a Phartneriaethau**<br>Cyflawni a chymryd rhan mewn prosesau cyfathrebu mewnol ac allanol effeithiol gyda chyrhaeddiad. Adnabod a datblygu partneriaethau ystyrlon gyda rhanddeiliaid allanol sy'n arwain at effaith | • Arwain y gwaith o ddatblygu partneriaethau newydd, arloesol, hynod arwyddocaol, o gychwyn y broses i'r diwedd, a chynnal partneriaethau sy'n bodoli'n barod sy'n ychwanegu gwerth i'r Brifysgol, e.e. canolfannau hyfforddi doethurol, partneriaethau rhyngwladol (academaidd neu anacademaidd), gweithgareddau addysg drawswladol (e.e. TNE), cynadleddau, offer meddalwedd mynediad agored gyda rhanddeiliaid allanol, e.e. gyda grwpiau cymunedol, elusennau, ysgolion, y llywodraeth, diwydiant neu fyrddau iechyd<br>• Ymgysylltu mewn modd arloesol, parhaus ac effeithiol trwy gyhoeddiadau, cynadleddau, neu'r cyfryngau gyda chyrhaeddiad<br>• Sbarduno cydnabyddiaeth gan gyrff priodol, er enghraifft trwy ddyfarniadau, gwobrau, Cymrodoriaethau, enwebiadau ac ati. |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Arwain ymgysylltiad parhaus â chyflogwyr mewn ffordd sy'n berthnasol i'r ddisgyblaeth e.e. am flwyddyn mewn diwydiant, lleoliadau haf sy'n arwain at ddeilliannau arwyddocaol |

| Disgrifydd | Parth | Enghreifftiau |
|---|---|---|
| **COLEGOLDEB ARWEINYDDIAETH, RHEOLAETH A GWASANAETH**<br>Arweinyddiaeth - o bosibl yn y Brifysgol neu mewn disgyblaeth neu weithgaredd academaidd cysylltiedig | **Colegoldeb/Gwasanaeth**<br>Darparu enghreifftiau myfyriol o sut rydych chi wedi arddangos dinasyddiaeth barhaus ac **wedi cynrychioli** eich disgyblaeth (neu fynd y tu hwnt i hynny) ac felly wedi cyfrannu yn gyson | • Rôl gynrychioliadol benodol ar bwyllgor neu weithgor Cyfadran / Prifysgol neu thema drawsbynciol (e.e. Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, Deallusrwydd Artiffisial, cyflogadwyedd, rhyngwladoli, profiad myfyrwyr, y Gymraeg), gan ddangos yr effaith a gawsoch wrth gynrychioli eich maes / adran / Ysgol.<br>• Darparu cymorth ar gyfer mentrau datblygu strategol Ysgol / Cyfadran a allai ymwneud ag ymchwil, addysgu neu gymorth i fyfyrwyr.<br>• Arwain ar weithgareddau recriwtio myfyrwyr cartref a rhyngwladol yr Ysgol/Adran.<br>• Arwain y gwaith o drefnu cynhadledd neu gyfres o seminarau ar lefel Ysgol / Cyfadran / disgyblaeth genedlaethol<br>• Cyfraniad sylweddol at brosesau'r Brifysgol (e.e. cydlynu adolygiad gan gymheiriaid o addysgu neu ymchwil, gwaith panel disgyblu, ymchwiliadau i gwynion, gwaith yn ymwneud â chwynion gan fyfyrwyr, addasrwydd i ymarfer) |
| | **Datblygu, Mentora a Rheoli Eraill**<br>Derbyn cyfrifoldeb am reoli a datblygu ystod amrywiol o gydweithwyr, gan gynnwys cynrychiolaeth o bortffolio neu faes pwnc | • Rheoli grŵp o gydweithwyr neu uned o fewn yr adran / Ysgol a darparu cyngor ar ddatblygu gyrfaoedd, gan gydnabod anghenion penodol unigolion o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.<br>• Mentora grwpiau amrywiol o gydweithwyr |
| | **Arwain yn y Brifysgol**<br>Cyfranogiad ac arweinyddiaeth fewnol yn y Brifysgol yn ymwneud â phortffolio penodol neu gyfrifoldeb am feysydd gweithgarwch cyfan | • Cyflawni rôl arweinyddiaeth wrth lunio a chyflwyno strategaethau, penderfyniadau a gweithgareddau cynhwysol yr ysgol.<br>• Dylanwadu ar y broses o lunio polisi'r Gyfadran mewn perthynas â gweithgareddau strategol.<br>• Arwain mentrau datblygu'r Adran/Prifysgol a allai ymwneud ag ymchwil, addysgu, Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, y Gymraeg neu gymorth i fyfyrwyr.<br>• Arweinydd effaith neu amgylchedd ar gyfer y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF)<br>• Rôl arweiniol mewn gweithgaredd sy'n gysylltiedig ag ymchwil o bwys sefydliadol (e.e. sefydliadau a chanolfannau, rhwydweithiau gyda phartneriaid allanol).<br>• Arwain derbyniadau/recriwtio ôl-raddedig ac aelodaeth weithredol o bwyllgorau ôl-raddedig ar lefel Cyfadran<br>• Datblygu mentrau i rannu addysg, ymchwil neu arferion gorau ym maes Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yng nghyfarfodydd / pwyllgorau / cynadleddau perthnasol y Gyfadran / Prifysgol<br>• Derbyn cyfrifoldeb cynrychioladol dros weithgareddau undebau llafur (gan sicrhau eich bod yn dangos yr effaith ar weithio mewn partneriaeth a sut rydych chi'n cynorthwyo cydweithwyr a mentrau i wella sut y caiff y brifysgol ei rhedeg) |

[1] Monograffau a llyfrau, cyfraniadau at gyfrolau wedi'u golygu, rhifynnau ysgolheigaidd, catalogau, prif gronfeydd data ymchwil, meddalwedd, cynhyrchion masnachol, entrepreneuraidd neu ddiwydiannol, datblygiadau ymarfer clinigol, cynhyrchion addysgol, cyhoeddiadau polisi, darnau ac allbynnau synthesis tystiolaeth yn y cyfryngau)

[2] Noder, nid oes rhaid i chi deithio dramor/yn rhyngwladol i gyflawni/bodloni gofynion rhyngwladol. Cydnabyddir nad yw teithio rhyngwladol yn bosibl nac yn ymarferol i nifer o unigolion, ac felly mae digwyddiadau/dyfarniadau rhyngwladol ac ati yn cynnwys y rhai sy’n cael eu cynnal yn y DU/eu mynychu gan gynrychiolwyr rhyngwladol. Mae angen tystiolaeth o gyfraniad ar lefel cydnabyddiaeth/enw da rhyngwladol (h.y. mae’r gwaith wedi cael ei gydnabod yn rhyngwladol, wedi cael effaith ryngwladol, wedi sicrhau ymgysylltiad rhyngwladol).